Estyn

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Gwaun y Nant

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2025

Mae’r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Gwaun y Nant yn gymuned gynhwysol sy’n rhoi pwyslais cyson ar les a datblygiad disgyblion, staff a’r gymuned ehangach. Mae gan y pennaeth weledigaeth bwrpasol i sicrhau bod disgyblion yn cael profiadau dysgu diddorol mewn amgylchedd dysgu gofalgar. Mae’r weledigaeth synhwyrol hon, sy’n cefnogi arferion gwella’r ysgol, yn cyfrannu at ymddygiad da a pharodrwydd i ddysgu ymhlith disgyblion.

Mae athrawon a chymorthyddion yn cydweithio’n effeithiol i sicrhau darpariaeth eang a chytbwys. Maent yn dîm o staff gweithgar sy’n canolbwyntio ar hyrwyddo lles disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn cydweithio’n frwd â rhieni ac asiantaethau allanol ac maent yn adnabod anghenion y disgyblion a’u cymuned yn dda. Yn ogystal, mae Uned Awtistiaeth a Gorbryder yr awdurdod lleol, sydd ar safle’r ysgol, yn darparu gofal effeithiol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Ar y cyfan, mae rhediad y sesiynau addysgu yn briodol i ddysgu disgyblion ac mae adborth yr athrawon i ddisgyblion i wella’u dysgu yn addas. Er hyn, nid oes cysondeb yn arferion yr athrawon wrth herio dysgu’r disgyblion. Ar adegau, mae tueddiad gan staff i or-arwain sy’n cyfyngu ar allu disgyblion i ddysgu’n annibynnol a gwneud dewisiadau uniongyrchol am eu dysgu.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd difyr a rheolaidd i disgyblion ddatblygu eu medrau’n bwrpasol ar draws y meysydd dysgu. Mae hyn yn arwain at gynnydd cadarn ym medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion. Mae staff yn fodelau iaith effeithiol ac maent yn hyrwyddo medrau llafar Cymraeg disgyblion yn llwyddiannus. Mae medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion yn datblygu’n dda, ac erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol, maent yn siaradwyr hyderus yn y ddwy iaith.

Mae staff a disgyblion yn meithrin perthnasoedd gwaith clòs a theyrngar. Maent yn annog disgyblion i gydweithio a rhannu syniadau a theimladau’n ddeallus, sy’n datblygu eu parch at bobl eraill yn llwyddiannus. Mae staff yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu medrau personol, cymdeithasol a chreadigol effeithiol, sy’n creu ymwybyddiaeth dda o’u cynefin a gwerthfawrogiad diwylliannol cryf.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Cysoni'r arferion addysgu effeithiol a darparu adborth buddiol i herio dysgu yr holl ddisgyblion

A2 Darparu cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am sut i gyflawni a chyflwyno eu dysgu

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/05/2025